Oddi wrth: Anna Brychan
Deon Cynorthwyol
Canolfan Addysg Athrofa
Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant
Cadeirydd y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol

Dyddiad: 10 Medi 2025

Lynne Neagle AS/MS
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd CF99 1SN

Annwyl Lynne

**Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol**

Rwy'n ysgrifennu i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am waith y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol (SWCG), yr wyf wedi bod yn ei gadeirio ar eich rhan ers mis Chwefror 2024. Mae pryderon ynghylch llwyth gwaith yn her barhaus i'r gweithlu addysg; roeddwn yn ddiolchgar am y cyfle i gadeirio grŵp sy'n benodol ar gyfer cydlynu ymdrechion i fynd i'r afael ag ef.

Adroddodd tri gweithgor i'r SWCG, a chafodd pob un y dasg o edrych ar agweddau polisi ar wahân sy'n effeithio ar lwyth gwaith ar lefel ysgol: Cyllid, Datblygu a Gweithredu Polisi, ac Adrodd ac Ymgysylltu. Cadeiriwyd pob grŵp gan uwch gynrychiolydd undeb llafur addysg, mewn un achos ar y cyd ag uwch aelod o wasanaeth cymorth ysgolion rhanbarthol ac fe'i cefnogwyd ymhellach gan swyddogion Llywodraeth Cymru. Gofynnwyd i bob grŵp ddatblygu cynllun gwaith ar gyfer y cyfnod o Chwefror 2024 hyd at Orffennaf 2025, gan nodi meysydd polisi addysg sy'n effeithio'n sylweddol ar lwyth gwaith ar lefel ysgol, a chytuno ar gamau gweithredu er mwyn mynd i'r afael â'r rhain. Cydlynodd y SWCG waith y grwpiau gan sicrhau cysondeb a chydlyniant ar draws y tri. Adroddodd hefyd am gynnydd i'r Fforwm Partneriaeth Gymdeithasol Ysgolion (SSPF), dan gadeiryddiaeth gennych chi fel Ysgrifennydd y Cabinet.

Byddaf yn canolbwyntio yn y llythyr hwn ar feysydd y gellid eu hystyried yn ddefnyddiol ar gyfer gwaith parhaus fel rhan o'ch Cynllun Gweithlu Addysg Strategol (SEWP).

## Ffyrdd o weithio

Sefydlwyd ffyrdd effeithiol o weithio, a oedd yn cynnwys yr holl bartneriaid allweddol. Nodweddwyd y gwaith drwyddo draw gan benderfyniad i wneud gwahaniaeth ar lefel ysgol. Mae'n werth nodi hefyd bod pob un o'r grwpiau wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid ymhell y tu hwnt i'w haelodaeth uniongyrchol er mwyn gwneud cynnydd

a chael mewnbwn ehangach gwerthfawr. Bu’r ffaith bod partneriaid o awdurdodau lleol a gwasanaethau cymorth rhanbarthol eraill, undebau llafur a Llywodraeth Cymru yn llywio gwaith y grwpiau yn fodel effeithiol er mwyn sicrhau bod safbwyntiau ac arbenigedd o bob cwr o'r sector yn cael eu cynnwys. **Rwy'n argymell bod y ffyrdd hyn o weithio’n cael eu mabwysiadu a'u datblygu ymhellach wrth i'r gwaith SEWP fynd rhagddo.**

**Effaith y gwaith a meysydd a awgrymir canolbwyntio arnynt yn y dyfodol**

- Gellir dadlau mai newid canfyddadwy yn niwylliant y gyfarwyddiaeth addysg yw'r budd mwyaf o'r gwaith hwn. Mae llwyth gwaith bellach yn cael ei ystyried yn fwy rheolaidd ar ddechrau datblygu polisi ar lefel Llywodraeth Cymru ac ALl. Datblygodd y dull hwn ymhellach yn ystod oes y prosiect hwn. Roedd yr esblygiad hwn yn amlwg yn y ffordd y gwnaeth swyddogion ailystyried rhai meysydd polisi – y canllawiau i Ddysgwyr 14-16 a’r canllawiau ar yr iaith Gymraeg er enghraifft – ac edrych eto ar y goblygiadau o ran llwyth gwaith. Rhannwyd datblygiad y polisi digartrefedd ar y llaw arall fel enghraifft o sut i gymhwyso'r broses asesu effaith llwyth gwaith o'r cychwyn cyntaf. Mae'r dull hwn wedi'i gyfyngu i bolisi addysg tra bod meysydd eraill, yn enwedig polisi iechyd, hefyd yn effeithio ar y gweithlu addysg. **Dylai asesiadau effaith llwyth gwaith fod yn ofyniad arferol ar gyfer pob maes polisi sy'n effeithio ar ysgolion, cyn cyflwyno newidiadau.**
- Datblygwyd astudiaethau achos yn ystod y gwaith hwn sy'n manylu ar brofiad bob dydd athrawon, arweinwyr ysgolion a chynorthwywyr addysgu. Mae’r rhain yn parhau i fod heb eu cwblhau ond byddant yn ddefnyddiol wrth ddangos ‘diwrnod ym mywyd’ ymarferwyr mewn ysgolion, a’r graddau y mae ystod o bwysau yn tanseilio gallu ymarferwyr i ganolbwyntio’n uniongyrchol ar addysgu a dysgu. **Dylid cwblhau'r rhain a'u rhannu'n eang er mwyn cefnogi gwell dealltwriaeth system gyfan o bwysau cyfredol ac ysgogi syniadau ar sut i fynd i'r afael â nhw.**
- Datblygodd y Grŵp Adrodd ac Ymgysylltu ddogfen, sydd â’r teitl ‘Sefydlu egwyddorion ar gyfer ymgysylltu â'r Llywodraeth ac Awdurdodau Lleol’ ar hyn o bryd, gyda'r nod o gynnig dulliau ymarferol o drin llwyth gwaith. Mae'r egwyddorion a amlinellir yn y ddogfen hon wedi'u hystyried yn ofalus ac maent yn ganlyniad ymgynghori manwl ag ystod eang o bartneriaid. **Dylai'r egwyddorion hyn gael eu mabwysiadu'n ffurfiol gan bob parti. Mae'r ddogfen derfynol wedi'i hatodi i'ch sylw.**
- Roedd cynllun gwaith y Grŵp Cyllid yn canolbwyntio ar nifer o feysydd sy'n effeithio ar lwyth gwaith. Cafodd y gostyngiad yn y gofynion adrodd mewn perthynas â grantiau Llywodraeth Cymru groeso cynnes gan fod y rhain wedi lleihau o 50 i wyth yn ystod oes y prosiect hwn. **Dylid adolygu'r system newydd symlach hon yn rheolaidd er mwyn dal i wasgu am i lawr ar ofynion adrodd biwrocrataidd ac adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.**
- Mae'r adolygiad hir-ddisgwyliedig o gyllid ysgolion llywodraeth leol yn dal i fynd rhagddo, ac mae'n debygol y bydd unrhyw welliannau o ran tryloywder yn cael eu cyflwyno fan bellaf yn y flwyddyn ariannol 2028/29 oherwydd y cymhlethdod cyfreithiol sy'n ymwneud â'r newidiadau. Deallwyd y rhain gan aelodau SWCG, ond bydd yn bwysig parhau i ganolbwyntio ar y maes hwn dros y cyfnod nesaf mewn perthynas ag ystyriaethau llwyth gwaith. Sefydlwyd

grŵp newydd i gefnogi'r gwaith hwn sy'n cynnwys Rheolwyr Busnes Ysgolion (SBMs). Rwy'n deall bod rhaglen beilot hefyd bellach ar waith sy'n cynnig hyfforddiant wedi'i ariannu i Reolwyr Busnes Ysgolion. **Rwy'n argymell bod y grŵp Rheolwyr Busnes Ysgolion yn cael ei gadw wrth i'r newidiadau i fodelau ariannu llywodraeth leol gael eu datblygu, a bod effaith y cynllun peilot, a'i botensial i gefnogi'r system ysgolion yn ehangach yn cael ei ystyried fel rhan o waith y SEWP.**

Gellir dadlau mai canlyniad mwyaf gwerthfawr y gwaith hwn oedd y rôl arwain a gymerwyd gan y rhanddeiliaid dan sylw, a'r grym a roddodd y prosiect hwn iddynt ymgysylltu a gofyn am atebion gan bob rhan o'r Llywodraeth – yn genedlaethol ac yn lleol. Fe wnaeth hefyd eu galluogi i ganolbwyntio ar yr hyn yr oeddent yn ei deimlo oedd y meysydd mwyaf pwrpasol, a lleiaf pwrpasol i fynd i'r afael â nhw ar hyn o bryd.

Byddwn i'n cynnig un rhybudd. Er y cytunwyd y byddai'r gwaith a wnaed gan y grwpiau yn cael effaith ffafriol ar lwyth gwaith arweinwyr ysgolion, bydd hyn yn fwy anodd i'w ganfod ar lefel yr ystafell ddosbarth. Roedd gan y grwpiau gylch gorchwyl wedi'u diffinio'n glir a oedd yn llywio'r cynlluniau gweithredu a ddatblygwyd ganddynt i weithredu newid dros gyfnod o ddeuddeg mis. Wrth i'r SEWP gael ei ddatblygu, bydd yn ddefnyddiol ystyried sut y gall proses sydd wedi'i strwythuro'n debyg ymateb yn fwy llawn i bryderon llwyth gwaith gweithlu ehangach yr ysgol hefyd.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i'r grwpiau am eu gwaith caled a'u hymgysylltiad dros y deuddeg mis diwethaf, ac am y ffordd gydweithredol y maent wedi ymdrin ag ef.

Yn gywir iawn

Anna

Anna Brychan
Cadeirydd y Grŵp Cydlynu Llwyth Gwaith Strategol